Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

# Arholiad CDLl Newydd Caerdydd

## Sesiwn Gwrandawiad 11 Treftadaeth

## Datganiad Cyngor HS11.01 mewn Ymateb i Gwestiynau'r Arolygwyr yn ID08k





www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cyngor Caerdydd

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd

# Archwiliad

---

**Sesiwn Gwrandawiad 11 – 14.00-17.00, 18 Mehefin 2026**

**Rhithwir**

**Treftadaeth**

**Mater - A yw ymagwedd polisi'r CDLl tuag at asedau treftadaeth yn briodol.**

1. **Agor a chyflwyniadau**

2. **Ymagwedd Polisi**

2.1 Nid oes gan asedau hanesyddol heb eu dynodi warchodaeth statudol. A yw'r CDLl yn ceisio ymestyn y warchodaeth statudol a roddir i asedau hanesyddol dynodedig a'u lleoliadau i asedau treftadaeth heb eu dynodi?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau nad yw'r Cynllun yn ceisio ymestyn y warchodaeth statudol a roddir i asedau hanesyddol dynodedig a'u lleoliadau i asedau treftadaeth heb eu dynodi. Ystyrir bod Polisi SP14 yn gwahaniaethu'n briodol rhwng asedau hanesyddol dynodedig ac asedau hanesyddol nad ydynt wedi'u dynodi mewn cysylltiad â gwarchodaeth statudol.

Mae Polisi SP14: Diogelu a Gwella Treftadaeth a Diwylliant Adeiledig yn darparu amddiffyniad polisi strategol i amgylchedd hanesyddol Caerdydd fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru.

O ran asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi, mae Polisi SP14 yn darparu amddiffyniad priodol ar gyfer adeiladau rhestredig lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu at nodweddion gweledol a diwylliannol y ddinas. Mae paragraff 6.115 yn datgan ymhellach fod Polisi SP14 yn nodi arwyddocâd adeiladau rhestredig lleol wrth ffurfio cymeriad ardal ac yn cyfeirio at y canllawiau sy'n nodi'r pwysau y gallai eu dynodiad ei gael wrth asesu cynigion datblygu.

Fodd bynnag, nodir nad yw'r polisi HE1 yn darparu eglurder llwyr, felly mae'r Cyngor yn cynnig y diwygiadau canlynol yn dilyn diwygiadau i faen prawf (1), (2) a (3) ym Mholisi HE1 (dangosir testun ychwanegol mewn print trwm ac mae gan eiriau sydd wedi'u dileu linell drwyddynt). Cynigir bod y diwygiad hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad Newidiadau i Faterion sy'n Codi sydd ar ddod.

*‘1. Disgwylir i ddatblygiad sy'n cael effaith ar ~~ased treftadaeth~~* ***asedau treftadaeth dynodedig neu adeiladau rhestredig lleol*** *gadw neu wella ei arwyddocâd a/neu ei osodiad, a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w gymeriad neu ei ymddangosiad.’*

*‘2. Bydd gofyn i geisiadau sy'n effeithio ar arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth* ***dynodedig*** *ddarparu digon o wybodaeth i ddangos sut y byddai cynigion yn cyfrannu at gadwraeth yr ased. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, yn dilyn canllawiau arfer gorau Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw.’*

*‘3. Bydd pwysau sylweddol yn cael ei roi i gadwraeth asedau treftadaeth* ***dynodedig ac adeiladau rhestredig lleol*** *y ddinas. Rhaid cyfiawnhau unrhyw niwed i arwyddocâd ased treftadaeth dynodedig neu* ***adeilad rhestredig lleol****.* Bydd cynigion yn cael eu pwyso yn erbyn buddion cyhoeddus y cynnig: p'un a ddangoswyd y gwnaed pob ymdrech resymol i gynnal y defnydd presennol, dod o hyd i ddefnyddiau newydd, neu liniaru maint y niwed i arwyddocâd yr ased, ac a yw'r gwaith a gynigir yr isafswm sydd ei angen i sicrhau defnydd buddiol hirdymor o'r ased.

2.2 Mae Polisi HE1(2) yn cyfeirio at unrhyw ased treftadaeth ond nid yw Asesiad Effaith Treftadaeth Cadw yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno Asesiadau Effaith Treftadaeth ar gyfer asedau heb eu dynodi. A ddylid diwygio'r polisi i adlewyrchu hynny?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn nodi bod y diwygiadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 2.1 uchod wedi'u gwneud i adlewyrchu hyn, gydag esboniad pellach wedi'i gynnwys yn yr ateb nesaf.

2.3 A yw'n briodol asesu dymchwel adeiladau rhestredig lleol yn erbyn y meini prawf ar gyfer adeiladau rhestredig? (Polisi HE1(5)(v)).

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol greu Cyfarwyddiadau Erthygl 4 heb gyfeirio at Weinidogion Cymru, yn rhannol er mwyn diogelu Adeiladau Rhestredig Lleol rhag cael eu dymchwel, fel y nodir yn Adran 4.3 o Ganllawiau Cadw *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* yn ogystal â llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, Dawn Bowden i Awdurdodau Cynllunio Lleol dyddiedig 28 Medi 2022 ar Restr Leol o Adeiladau Hanesyddol (ynghlwm yn Atodiad 1).

Mae adran 6.13 TAN 24 yn ei gwneud yn ofynnol i drin colled adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth yn yr un modd â chynigion i ddymchwel Adeiladau Rhestredig, drwy ddilyn adran 5.16 TAN 24.

Nid yw adran 1.16 TAN 24 yn atal defnyddio Asesiadau o Effaith ar Dreftadaeth ar gyfer asedau dynodedig nac asedau heb eu dynodi, gan nodi; *Yn ogystal, mae rhai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu yn gofyn am ddatganiad dylunio a mynediad. Mae gofynion ar gyfer datganiadau dylunio a mynediad yn cael eu rhagnodi gan ddeddfwriaeth, ond gallent gynnwys mathau penodol o gais cynllunio a allai gael effaith ar asedau hanesyddol. Dylai awdurdodau cynllunio roi cyngor i ymgeiswyr ar ble mae angen y datganiadau hyn er mwyn cynorthwyo wrth benderfynu ar geisiadau caniatâd sy'n effeithio ar asedau hanesyddol presennol. Pan fo angen datganiad dylunio a mynediad a datganiad o effaith ar dreftadaeth, dylai'r awdurdod cynllunio gynghori ar beth sy'n angenrheidiol i bob un er mwyn osgoi dyblygu.*

Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol ymestyn y gofyniad am asesiadau o effaith ar dreftadaeth i Adeiladau Rhestredig Lleol lle mae Erthygl 4 yn berthnasol fel ffordd briodol a chywir o asesu effaith. Yn yr un modd, nododd darpariaeth adran 6.13 TAN 24 wrth asesu dymchwel adeilad mewn Ardal Gadwraeth hefyd fod hyn yn feini prawf priodol i'w gymhwyso hefyd yn y sefyllfaoedd eithriadol (a amlygwyd yn *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru)* lle mae cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i gymhwyso i gael gwared ar y PD i'w ddymchwel.

## 3. Newidiadau i Faterion sy’n Codi

3.1. Newid polisi EN9 (cynllun presennol) i Bolisi HE1 ym mharagraff 7.257?

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cytuno a bydd yn cynnwys hyn yn yr ymgynghoriad sydd ar ddod ar y Newidiadau i Faterion sy’n Codi.

## 4. Camau Gweithredu

**Atodiad 1: Llythyr gan y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon, Dawn Bowden dyddiedig 28 Medi 2022 ar Restr Leol o Adeiladau Hanesyddol**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Leaders and Chief Executives of all Local Authorities in Wales**

**Chairs and Chief Executives National Park Authorities in Wales**

**Heads of Planning, Local & National Park Authorities in Wales**

28 September 2022

Dear Sir / Madam,

**LOCAL LISTING OF HISTORIC BUILDINGS**

I am writing to you about the protection of buildings of special local interest in Wales, and the importance of ensuring that such buildings receive proper consideration in the planning system in Wales.

Historic buildings are a precious part of our heritage. They help to create Wales's distinctive character and contribute to our identity and sense of place. They are also important to our quality of life, help us to understand our history and are a resource for future generations to enjoy and appreciate. However, there are increasing examples of locally important historic buildings being demolished often in the face of concerns and objections from local communities.

Buildings that are of special architectural or historic interest at the national level are protected by Cadw through listing under the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990. However, there are many other historic buildings that do not meet this national threshold, but which are nevertheless significant locally. These buildings are often held in high regard by local communities for their contribution to local character and memory. The rate of loss of these locally important historic buildings is of concern to me. Too often I receive requests to intervene from local communities who are seeking to protect buildings that are important to them and where they feel their voices are not being heard. As a national body, it is right that Cadw has responsibility for identifying buildings of special interest at a national level, , but it is appropriate for the identification and protection of locally important buildings to be provided at the local level by local authorities.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Planning Policy Wales (PPW) sets out the Welsh Government's national planning policy for the protection of the historic environment and provides local planning authorities with the ability to identify historic assets of special local historic interest through local lists. PPW outlines how local planning authorities can identify and give greater protection to those assets through the planning system by developing local lists and appropriate policies for their conservation and enhancement in Local Development Plans (LDPs), which can be a powerful tool for the protection of local character. Importantly, local listing also provides an opportunity for a community to have a voice in the identification of historic assets of special local interest and in caring for them appropriately. Cadw has provided helpful guidance at the following web link Historic assets of special local interest | Cadw (gov.wales). Furthermore, the demolition of buildings that are included on such a "local list" can be regulated by the local authority making an "Article 4 direction" under the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995.

We cannot continue to lose these buildings through permitted development rights without any proper democratic scrutiny. Retaining, and possibly adapting, such buildings can add to the value and quality of the places within which we live and avoid what can sometimes be perceived as inferior and unimaginative modern development. These buildings tell the story of Wales, and the evolution of our way of life, and highlighting them for special consideration can also contribute to our Climate Change Strategy.

We have a particular responsibility to future generations to ensure that owners do not destroy, without proper scrutiny, a legacy of historic buildings that illustrate important aspect of our past lives. These locally important historic buildings represent what makes our communities special and include physical evidence of our past achievements and activity. Therefore, I strongly encourage each authority in Wales to take up the option of "local listing" so that we can rely on local democracy as the mechanism to decide what happens to these buildings in the future. It is also important that such lists are kept up to date and that we make use of the statutory provisions, like Article 4 Directions, to regulate the indiscriminate demolition of such buildings.

My officials in Cadw are ready to meet your conservation teams to discuss how all this may be achieved.

I look forward to your reply.

Yours sincerely,



**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip